**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Ebrill 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad
Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol

**Awdur yr Adroddiad:** Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol

**Teitl:** Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2015-16

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2015-16 i'r Pwyllgor sy'n darparu barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif weithredwr archwilio' ddarparu barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ynglŷn ag adroddiad a 'barn' gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol 2015-16 wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 ac mae'n dangos:

- bod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi 'sicrwydd canolig' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg;
- nid oes unrhyw gymwysterau ynghlwm wrth 'farn' y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- lefel y gwaith a wnaeth yr Archwilwyr Mewnol i gyrraedd y 'farn' gyffredinol;
- sut mae Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS; a
- chrynodeb o berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a’i atodi i'r adroddiad.**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.